Trip i'r Sŵ

Mwynhau a gwerthfarogi byd natur

Am naw o'r gloch, tu allan i'r ysgol, roedd pedair bws anferth. Hwn oedd diwrnod y trip i'r sŵ. Roedd y plant i gyd yn eu hwyliau gorau a'r athrawon yn flin iawn am fod y plant yn swnllyd. "Un gair eto a fydd dosbarth pedwar ddim yn mynd i'r sŵ," meddai Miss Parry athrawes dosbarth pedwar. Swatiodd pawb yn ddistaw. Daeth y pennaeth heibio a dweud ei bod hi'n amser i bawb fynd ar y bysiau.

Ar ôl cyrraedd y sŵ aeth pob dosbarth yn drefnus efo'r athrawon i weld y gwahanol adar ac anifeiliaid. Roedd dosbarth pedwar yn awyddus i fynd i weld yr eliffantod. Tri eliffant mawr oedd yn y sŵ. Pan gyrhaeddon nhw roedd eu gwarchodwyr yn eu bwydo efo pob math o ffrwythau, llysiau a digonedd o wair. Pan welodd un o'r eliffantod y plant, plygodd dros y ffens a chodi ei drwnc hir i gyfeiriad Miss Parry. "Does gen i ddim byd i ti ," meddai Miss Parry yn gellweirus wrth yr eliffant. Roedd y plant wedi cael digon ar yr eliffantod.

"Miss gawn ni fynd i weld y llewod," oedd cri y dosbarth cyfan.

"I ffwrdd â ni i weld y llewod felly," meddai Miss Parry.

Mae'n amlwg ei bod yn ddiwrnod da yn y sŵ gan fod y llewod yn cael eu bwydo hefyd. Roedd darnau mawr o gig ar lawr y cawell ac ambell lew fwy barus na'i gilydd wedi dwyn dau ddarn mawr o gig. Roedd eraill yn rhuo a chwyrnu.

"Gwrandewch rwan," meddai Miss Parry oedd yn siarad yn union fel athrawes, "ryda chi wedi cael gweld yr eliffantod a'r llewod. Mi fuaswn i'n hoffi cael mynd i weld y mwncïod.

"Iawn Miss Parry," meddai'r plant fel un côr.

Wel dyna hwyl oedd yng nghawell y mwncïod. Roedd oddeutu dau ddwsin ohonyn nhw yn y cawell. Roedd rhai yn rhedeg yn wyllt o un lle i'r llall. Eraill yn eistedd gyda'i gilydd.

"Edrych," meddai Ianto, " mae'r mwnci yna yn hel chwain oddi ar gefn y llall." Chwarddodd y plant i gyd.

Allan o gwt yn y gornel daeth mwnci a mwnci bach yn sownd

ar ei bol. Esboniodd Miss Parry, “Edrychwch y fam ydi hon a mwnci bach yn cael diod.” Roedd y plant i gyd wedi rhyfeddu. Yn araf, ond yn wyliadwrus daeth y fam yn nes ac yn nes at y plant. Arhosodd ar y graig ymhen blaen y cawell. Tynnodd y mwnci bach oddi ar ei bol a gafael ynddo’n ofalus. Cododd y mwnci bach yn ei breichiau. “Miss Parry?” gofynnodd Sioned yn feddylgar, “ydi hi yn dangos ei babi bach newydd i ni.”
“Wel mae’n edrych felly,” meddai Miss Parry.
A diwrnod felly y bu. Diwrnod o ryfeddodau. Diwrnod i’w gofio. Ar eu ffordd adref yn y bws roedd y plant i gyd wedi penderfynu eu bod am weithio mewn sŵ ar ôl iddyn nhw dyfu i fyny.
“Pam?” gofynnodd Miss Parry. Yr ateb unfryd oedd ‘am fod anifeiliaid yn bethau diddorol.’

O Dduw, mi ydw i’n hoffi pob math o anifeiliaid. Anifeiliaid gwyllt ac anifeiliaid dof. Gwna fi’n ffrind i bob anifail. Amen.

- Fyddwch chi’n hoffi mynd i’r sŵ?
- Beth fyddwch chi’n hoffi orau yn y sŵ?
- Fyddech chi’n hoffi gweithio mewn sŵ? Pam?